**Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i 'Gam-drin Domestig yng Nghymru': Ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**

| Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| --- |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Byddaf yn rhoi adroddiad ar y cynnydd a wnaed i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant erbyn Mai 2009 ac ar ôl hynny byddaf yn rhoi adroddiad blynyddol ar gyflwyno'r strategaeth cam-drin domestig genedlaethol drwy Ddatganiad Ysgrifenedig y Cabinet.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim.** |
| **Ymateb : Derbyn**<br><br>Yn y dyfodol, lle y bo'n briodol, bydd ein cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn ei gwneud yn glir bod cam-drin domestig yn effeithio ar bobl hŷn, er enghraifft drwy ein defnydd o ddelweddau.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim.**<br><br>Telir unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer cyhoeddiadau newydd o gyllidebau rhaglenni presennol. |

**Ymateb: Gwrthod**

Caiff cartrefi gofal ac asiantaethau gofal cartref eu rheoleiddio o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a chânt eu cofrestru a'u harolygu gan [Arolygiaeth] Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Cwmpesir unrhyw achosion o gam-drin yn y lleoliadau rheoledig hyn gan drefniadau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (POVA) a sefydlwyd eisoes o dan arweiniad ac wedi'u cydlynu gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol o dan ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru "Mewn Dwylo Diogel". Gallai ymestyn y canllawiau a'r trefniadau cam-drin domestig i'r gwasanaethau rheoledig hyn mewn rhyw ffordd achosi dryswch. Cydnabyddir yr angen i wasanaethau cam-drin domestig weithio'n agos â'u trefniadau POVA lleol ac adlewyrchir hyn yn ein canllawiau. Er mwyn cynorthwyo â'r broses hon, ymunodd aelod newydd gydag arbenigedd POVA â Gweithgor Cam-drin Domestig Cymru Gyfan ym mis Ionawr 2009. Byddwn yn parhau i adolygu'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol - Dim.**

**Ymateb: Derbyn**

Lle y bo'n briodol, bydd unrhyw gyhoeddiadau yn y dyfodol yn cynnwys cyfeiriadau amlwg at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae cam-drin domestig, p'un a gaiff ei gyfeirio at blant a phobl ifanc, neu ei gyflawni mewn sefyllfa lle mae plant a phobl ifanc yn dyst iddo, yn groes i'w Hawliau fel y nodir yn Erthyglau 3 a 6 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). O dan y Confensiwn, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddyletswydd o dan Erthyglau 19 a 34 o'r Confensiwn i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag trais, cam-drin, ac esgeulustod gan eu rhieni neu oedolion eraill. O dan Erthygl 39, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddyletswydd bellach i sicrhau bod systemau ar waith i roi help a chymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef cam-drin domestig

neu sydd wedi bod yn dystion i gam-drin domestig er mwyn helpu i adfer eu hunan-barch.

**Goblygiadau Ariannol - Dim.**

| |
|---|
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Bydd y Tîm Polisi Tai â Chymorth yn ceisio gwybodaeth gan awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd llety symud ymlaen i fenywod a theuluoedd sy'n gadael llochesau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy ddatblygiad y Strategaeth Cefnogi Pobl a'r Cynllun Digartrefedd.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim.**<br><br>Disgwylir i unrhyw gostau ychwanegol gael eu talu o gyllidebau rhaglenni tai presennol. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Mae hwn yn argymhelliad pellgyrhaeddol iawn ac mae'n cwmpasu materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl.<br><br>Rwyf wedi ymgynghori â Llywodraeth y DU ac maent yn datblygu safonau gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer y sector trais domestig a rhywiol. Mae hyn yn ddarn o waith parhaus sy'n rhan o'i Chynllun Cyflenwi Trais Domestig Cenedlaethol. Maent wedi comisiynu Cymorth i Fenywod i ddatblygu safonau gwasanaeth ar gyfer y naill sector a'r llall ac mae'r rhain yn cael eu datblygu a'u trafod ar hyn o bryd. Maent yn gobeithio y bydd gan y safonau swyddogaeth ddeuol; yn gyntaf i helpu gwasanaethau lleol i gynnal hunanasesiad yn erbyn safon genedlaethol gytûn; yn ail i hysbysu cynllunwyr a chomisiynwyr lleol am ba wasanaethau y dylent eu prynu er mwyn cefnogi dioddefwyr yn effeithiol. Eu nod yw cytuno ar y safonau erbyn diwedd mis Mawrth 2009. Byddwn yn cydweithio â Chymorth i Fenywod yng Nghymru a Gweithgor Cam-drin Domestig Cymru Gyfan i ystyried y ffordd orau o fabwysiadu'r safonau hyn yng Nghymru. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn ein cynllun gweithredu Strategol newydd a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth y byddwn yn ei drafod â Chymorth i Fenywod yng Nghymru. |

Mae Coordinated Action Against Domestic Abuse, CAADA, wedi bod yn datblygu safonau gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer Cynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol, IDVAau, sy'n cwmpasu darpariaeth gwasanaeth, adnoddau dynol, gwaith amlasiantaeth a llywodraethu a chyllid.  Mae'r safonau drafft yn cael eu treialu mewn pum prosiect yn Lloegr ac unwaith y cwblheir y gwaith hwn, ystyrir eu cyflwyno ymhellach yng Nghymru a Lloegr.

Yng Nghymru mae'n arbennig o bwysig bod y canllawiau ar gyfer comisiynwyr gwasanaethau tai yn ystyried yr argymhelliad hwn. Anelir y Canllawiau Cam-drin Domestig Tai â Chymorth a gyhoeddwyd yn 2006 at gyrff comisiynu ac maent yn ystyried ystod y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl sy'n dianc rhag camdriniaeth ddomestig. Caiff y ddogfen hon ei hadolygu yn Hydref 2009 a bydd  yn ystyried yr argymhelliad hwn.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

Yng Nghymru, telir unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer cynhyrchu a chyhoeddi canllawiau newydd o gyllidebau rhaglenni presennol.

| |
|---|
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Gellir datblygu'r argymhelliad hwn drwy ddulliau presennol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu CGGC i ddatblygu a chynnal gwefan gwirfoddoli genedlaethol www.gwirfoddolicymru.net. Mae'r wefan hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd gwirfoddoli, wedi'u trefnu yn ôl math a lleoliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn rhoi cyllid craidd i'r rhwydwaith o ganolfannau gwirfoddoli o dan yr un Cytundeb. Yn gydnabyddiaeth am hyn, mae'r canolfannau'n rhoi cyngor a chanllawiau i fudiadau sy'n recriwtio gwirfoddolwyr, gan ddefnyddio deunydd cyffredin, ar:<br>• Recriwtio a chadw gwirfoddolwyr<br>• bodloni gofynion dyletswydd gofal o ran diogelwch gwirfoddolwyr a chleientiaid<br>• datblygu polisïau ac arfer sy'n gyfeillgar i wirfoddolwyr<br>• cynnwys gwirfoddolwyr ag anghenion arbennig<br>Mae'r Canolfannau'n darparu rhaglen achrededig ar gyfer rheolwyr gwirfoddolwyr hefyd sy'n seiliedig ar safonau galwedigaethol.<br><br>Yn y cynllun gweithredu cam-drin domestig strategol newydd byddwn yn cynnwys cam gweithredu i godi ymwybyddiaeth o'r wefan gwirfoddoli genedlaethol ymysg mudiadau cam-drin domestig.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim** |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Dechreuodd gwaith ar gynllun gweithredu yr Hydref diwethaf a phan roddais dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 16 Ebrill 2008 ymrwymais i ddatblygu cynllun gweithredu erbyn diwedd mis Mawrth 2009. |

**Goblygiadau Ariannol - Oes**

Bydd angen eu hystyried, o bosibl gyda Chydweithwyr yn y Cabinet, wrth i'r cynllun gweithredu strategol gael ei ddatblygu.

**Ymateb: Derbyn**

Mae cefnogi plant mewn angen, yn cynnwys y rhai y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym yn cymryd camau ar draws portffolios gweinidogol i fodloni'r flaenoriaeth hon. Mae'r camau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae hawl gan Blant mewn Angen gael asesiad o'u hanghenion o dan y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd.

- Mae cyllid o £1m, £2.5m, £3m wedi'i neilltuo dros y cyfnod 2008-09 i 2010-11 er mwyn gweithredu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau mwy o bwerau i ddeddfu ar blant hawdd eu niweidio trwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Blant Hawdd eu Niweidio a Thlodi Plant. Mae’r LCO, y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddo ym mis Rhagfyr 2008, yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad ddeddfu ar blant a phobl ifanc hyd at 25 oed, ac i ddarparu cymorth i deuluoedd sy’n agored i niwed.

- Bydd y fframwaith eiriolaeth newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y llynedd yn rhoi mynediad i bob plentyn a pherson ifanc i eiriolaeth/cymorth drwy linell gymorth 7 diwrnod yr wythnos gydag atgyfeiriad at wasanaeth eiriolaeth arbenigol integredig i blant mewn angen neu mewn perygl. Mae hyn yn cael ei ddatblygu i'w weithredu'n ddiweddarach eleni.

- Clustnodwyd £1.8m yn 2008/9 yn codi i £2.3m yn 2009/10 ar gyfer CAMHS. Mae tri rhwydwaith CAMHS rhanbarthol yn gweithredu ledled Cymru.

- Fel plant mewn angen, mae gan blant anabl hawl i gael asesiad o'u hanghenion o dan y Fframwaith Asesu. Dylai'r asesiad fynd i'r afael ag anghenion eu rhieni/gofalwyr hefyd.

- Rydym yn datblygu mesur i ddarparu gwasanaethau wedi'u targedu ar gyfer plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Byddai Cymorth Teulu Integredig ar gael i rieni lle y gallai camddefnyddio sylweddau, problemau/salwch iechyd meddwl (gan gynnwys anabledd dysgu) a cham-drin domestig olygu bod y plentyn mewn angen neu berygl.

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu Rhwydwaith Maethu Cymru i ehangu'r Prosiect Cymorth Gofal. Bydd cynorthwyo tri gwasanaeth maethu ychwanegol i sefydlu cynlluniau Cymorth Gofal i gefnogi teuluoedd plant mewn angen, yn cynnwys plant anabl, yn ffocws allweddol ar gyfer 2008-9.

Drwy'r fframwaith Cefnogi Pobl, mae cyllid ar gael eisoes i blant sy'n aros mewn llochesau. Mae pob lloches a ariennir drwy Cefnogi Pobl yn cael lwfans plant sy'n gyllid parhaus. Mae hyn yn sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion cymorth plant dibynnol ac y darperir cymorth. Cyfanswm y cyllid Cefnogi Pobl ar gyfer gwasanaethau Cam-drin Domestig yw tua £10 miliwn. Mae hyn yn cynnwys arian drwy lwfans plant. Caiff y gwasanaeth hwn ei ategu gan y cyllid a gyflwynwyd yn ddiweddar o'r gyllideb Cam-drin Domestig ar gyfer un cydgysylltydd plant ac 8 o weithwyr plant peripatetig (7 ar gyfer llochesau Cymorth i Fenywod yng Nghymru ac 1 ar gyfer llochesau Black Association of Women Step Out). Fel rhan o'n Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd gyda Chymorth i Fenywod yng Nghymru byddwn yn cynnwys gofyniad i ddarparu tystiolaeth o'r graddau y mae'r gwasanaeth peripatetig hanfodol hwn yn diwallu anghenion plant mewn llochesau.

Eir i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â dynion ifanc rhwng 14 ac 18 oed yn cael aros mewn lloches gyda'u mamau yn yr adolygiad o ganllawiau Cam-drin Domestig Cefnogi Pobl.

Drwy'r Strategaeth Cefnogi Pobl cynhelir adolygiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol a fydd yn ystyried hygyrchedd corfforol llochesau.

| |
|---|
| **Goblygiadau Ariannol -** Dim<br><br>Telir unrhyw gostau o gyllidebau rhaglenni presennol o hyd. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Mae CAFCASS CYMRU yn cydnabod effeithiau niweidiol posibl cam-drin domestig ar blant a theuluoedd yn llawn. Adlewyrchir y flaenoriaeth a roddir i nodi cam-drin domestig ac asesu ei risg a'i effaith ym Mhecyn Adnoddau Cam-drin Domestig y mudiad a weithredwyd yn ffurfiol ar 1[af] Hydref 2008. Er enghraifft, mae'r Pecyn yn cyflwyno proses sgrinio systematig o bob achos cyfreithiol preifat newydd ar gyfer materion cam-drin domestig, a lle y nodir cam-drin domestig mae'n amlygu'r angen am asesiad manwl o risgiau ac effaith. Mae'r Pecyn yn canolbwyntio ar gynllunio diogelwch hefyd lle mae cam-drin domestig yn hysbys, a'r angen i fod yn ymwybodol a, lle bo angen, gyfeirio pobl at wasanaethau cymorth lleol priodol. Rydym yn hyderus y bydd gweithredu'r Pecyn Adnoddau Cam-drin Domestig yn cynorthwyo i leihau'r risgiau i blant a menywod sy'n gysylltiedig â threfniadau cyswllt ac achosion o Gyfraith Teulu yn y dyfodol yn effeithiol.<br><br>Os honnir y "cam-driniwyd plentyn", yn ystod ymweliad cyswllt yn ystod y cyfnod y mae CAFCASS CYMRU yn gysylltiedig, mae'r ymarferwr yn arfer ei ddyletswydd statudol i wneud atgyfeiriad amddiffyn plant i Wasanaethau Cymdeithasol, ac i hysbysu'r Llys drwy Adroddiad Asesiad Risg (a16A o Ddeddf Plant 1989). Yn yr un modd, arferir ymateb diogelu lle yr honnir y "cam-driniwyd" mam yn ystod ymweliad cyswllt. Yn y naill sefyllfa a'r llall, byddai'r ymarferwr yn ymwybodol o'r ffaith y dylai cyswllt ddigwydd os yw'n ddiogel ac er budd y plentyn yn unig, a byddai'n hysbysu'r Llys yn unol â hynny.<br><br>**Goblygiadau Ariannol – Dim.** |

**Ymateb: Mater a gadwyd yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU**

Er fy mod yn cefnogi safle'r Pwyllgor ar y pwynt hwn, mae'n fater a gadwyd yn ôl.

Rwy'n ymwybodol, ym mis Mawrth 2009, i'r Swyddfa Gartref gyhoeddi cynllun lle y gall ddioddefwyr trais domestig nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt fod yn gymwys i gael cymorth ar gyfer costau tai a byw. O dan y cynllun, gall dioddefwyr trais domestig y mae eu ceisiadau ar gyfer Caniatâd Amhenodol i Aros yn llwyddiannus fod yn gymwys i gael cyfraniad tuag at y costau hyn.

O dan y cynllun, unwaith y bydd Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi cael y cais, cynigir bod ymrwymiad i wneud penderfyniadau ar geisiadau Caniatâd Amhenodol i Aros o fewn 20 diwrnod gwaith o'u derbyn, ar yr amod y darparwyd yr holl wybodaeth ategol angenrheidiol gyda'r cais.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi bod yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU i leihau'r amser a gymerir i benderfynu ar geisiadau Fetio Uwch. Fel rhan o'r gwaith sy'n gysylltiedig â chynllun NRPF, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i leihau amserlenni clirio achosion Fetio Uwch. Ni fydd hyn ond yn digwydd i raddau sylweddol os yw safon y ceisiadau Fetio Uwch a gyflwynir i Asiantaeth Ffiniau'r DU yn gwella wrth fynd ymlaen.

Bydd y cynigion o dan y cynllun newydd yn cryfhau'r ffordd y caiff achosion o drais domestig eu hystyried, gan alluogi'r dioddefwyr hynny sy'n agored i niwed i gael cymorth ychwanegol. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio ar fanylion y cynllun o hyd ac nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer ei gyflwyno.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cysylltu â llywodraeth y DU ynglŷn â chyflwyno'r cynllun hwn ac mae rhanddeiliaid allweddol, yn arbennig Cymorth i Fenywod yng Nghymru a BAWSO, wedi'u hysbysu o'r cynnydd. Mae'r ddwy lywodraeth yn parhau'n ymrwymedig i ddod o hyd i ateb hirdymor i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt a byddant yn parhau i weithio o fewn y sector statudol a'r sector gwirfoddol i ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi'r grŵp hwn o

| |
|---|
| ferched.<br><br>Yng Nghymru nid ydym yn gweld bod angen gwaith ymchwil newydd, ond byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gweithgor Cam-drin Domestig trydydd sector allweddol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn sicrhau bod cymorth digonol ar gyfer y grŵp hwn o ferched.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim**<br><br>Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn fater i Lywodraeth y DU. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Rwyf wedi cysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r argymhelliad hwn. Cytunwyd y gallai Uned Rhithwir Trais Domestig y llywodraeth, sy'n cynnwys fy swyddogion, ystyried yr argymhelliad hwn fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflenwi Fetio Uwch 2009-10 y DU. Byddai angen ystyried dioddefwyr eraill sy'n agored i niwed hefyd. Caiff cam gweithredu sy'n gysylltiedig â'r mater hwn ei gynnwys yn ein cynllun gweithredu strategol newydd.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Oes**<br><br>Bydd angen i'r rhain gael eu hystyried gan Lywodraeth y DU. |
| **Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**<br><br>Croesawaf y cyfraniad y mae gwaith ymchwil Carers UK ar y contract cymdeithasol yn ei wneud. O ran y drafodaeth ehangach ar sut y dylai systemau gofal a chymorth gael eu trefnu a'u hariannu yn y dyfodol, rydym yn ymgynghori eisoes ar faterion eithaf eang er mwyn sefydlu'r egwyddorion a'r amcanion cyffredinol a fydd yn llywio Papur Gwyrdd manylach a gaiff ei gyhoeddi tua gwanwyn 2009. Daw'r |

| |
|---|
| ymgynghoriad ar y papur "Talu am Ofal yng Nghymru: Creu Dyfodol Deg a Chynaliadwy" i ben ar 28 Chwefror 2009. Byddem yn croesawu ac yn annog ymatebion i'r ymgynghoriad gan ofalwyr a mudiadau gofal er mwyn sicrhau bod eu barn a'u safbwyntiau'n cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu ein Papur Gwyrdd.<br><br>**Rydym hefyd wedi cyflwyno i'r Cynulliad ein Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) ar Ofalwyr. Bydd hwn yn ysgogi gwella ymhellach y trefniadau i gefnogi gofalwyr a hyrwyddo eu lles. Mae'r LCO arfaethedig ar ei daith trwy brosesau craffu'r Cynulliad a San Steffan ar hyn o bryd, a'r gobaith yw y bydd yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol yn ystod haf 2009.**<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim** |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Cytunaf fod angen i'r gwaith ymchwil hwn gael ei gwblhau yn ystod 2009/10 ac unwaith y bydd adroddiad ymchwil ar gael, byddaf yn ystyried ail ran yr argymhelliad hwn.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Oes**<br><br>Bydd hyn yn cael ei gynnwys yng nghynllun ymchwil yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol neu APADGOS ar gyfer 2009/10. Bydd cyllidebau presennol yn talu amdano. |
| **Ymateb : Derbyn**<br><br>Mae ymgynghoriadau gyda phobl ifanc yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig yn dweud wrthym yn |

gyson mai'r hyn sydd ei eisiau arnynt pan fyddant yn anhapus, yn ofnus neu'n bryderus yw:

- amrywiaeth o adnoddau sy'n hawdd cael gafael arnynt ac sy'n diwallu anghenion unigol;
- amser i oedolyn sy'n dangos parch atynt, sy'n gymwys ac sy'n parchu cyfrinachedd wrando arnynt.

Mae tystiolaeth yn dangos y gall gwasanaeth cynghori sy'n rhoi cymorth o fewn strategaeth ysgol gyffredinol fod yn effeithiol iawn wrth hyrwyddo lles pobl ifanc, cefnogi eu dysgu a lliniaru ac atal y cynnydd mewn problemau iechyd meddwl. Mae cynghorwyr yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i'w helpu i ymdopi â phroblemau cymdeithasol, emosiynol a seicolegol. Gall y problemau hyn godi am nifer o resymau, yn cynnwys cam-drin domestig sy'n fater sy'n amlwg ac yn datblygu i lawer o bobl ifanc sy'n manteisio ar wasanaethau cynghori. Gellir cael y wybodaeth hon yn anhysbys o sesiynau gyda chynghorwyr.

Bydd gweithredu'r Strategaeth Cynghori mewn Ysgolion a fydd yn sefydlu gwasanaeth cyffredinol i bob plentyn a pherson ifanc sy'n ddiogel, yn hygyrch ac o safon uchel yn rhoi rhywun i ddisgyblion ysgol droi ato pan fydd angen help neu gymorth arnynt.

O fewn y £6.5 miliwn a glustnodwyd ar gyfer gweithredu'r strategaeth, nodwyd cyllid ar gyfer gwerthusiad cenedlaethol ym mlwyddyn 2 a blwyddyn 3.

Byddaf yn ystyried a oes angen gwerthusiad pellach fel rhan o'r gwaith sy'n deillio o ymdrin ag argymhelliad 14.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

**Ymateb: Derbyn**

Mae hwn yn argymhelliad pellgyrhaeddol a byddaf yn gofyn i'r Gweithgor Cam-drin Domestig roi cyngor i mi o ran y ffordd orau o'i weithredu. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys nifer o fudiadau sy'n cynrychioli cymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae'r sefydliadau hyn yn ein cefnogi'n rheolaidd er mwyn

sicrhau y caiff y wybodaeth rydym yn ei lledaenu ei thargedu'n briodol. Byddaf yn sicrhau y bydd fy adroddiadau blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys yr argymhelliad hwn h.y. bydd ein cynllun gweithredu strategol yn cynnwys camau gweithredu ar y mater hwn a fydd yn cynnwys y defnydd o'n gwefan.

**Goblygiadau Ariannol - Oes**

Gall fod rhai costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn e.e. os bydd angen darparu canllawiau mewn gwahanol ieithoedd neu fformatau. Telir am y costau hyn o gyllidebau presennol yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd fy Adran yn cynhyrchu adroddiad manwl yn ystod 2009/10 yn nodi sut y mae'r gweithwyr a nodwyd gan y Pwyllgor yn gymwys i nodi a chefnogi'r bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Byddaf yn sicrhau bod fy nghyd-aelodau yn y cabinet sydd â diddordeb yn fodlon ar yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Yr hyn y gallaf ei ddweud, hyd yn oed ar y cam cynnar hwn, yw bod llawer o waith da eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru. Un enghraifft yw gwaith CAFCASS Cymru. Yn ei ryngweithio â Llys y Teulu, mae CAFCASS CYMRU yn cydnabod natur ddifäol cam-drin domestig ar blant a theuluoedd, ac adlewyrchir hyn yn y gwaith o weithredu'r Pecyn Adnoddau Cam-drin Domestig yn ddiweddar (gweler yr ymateb i argymhelliad 10).

Heblaw am gael eu gwneud yn ymwybodol o gynnwys y Pecyn Adnoddau (e.e. sgrinio ac asesu systematig, cynllunio diogelwch, atgyfeiriadau i asiantaethau cymorth a dolenni defnyddiol), bydd yn ofynnol i ymarferwyr roi tystiolaeth o gydymffurfiaeth a'r polisi a'r weithdrefn sydd wedi'u cynnwys yn y Pecyn.  Caiff ymarferwyr eu hatgoffa'n rheolaidd o'u cyfrifoldebau diogelu ac fe'u gwneir yn ymwybodol o wybodaeth ymchwil ddiweddar sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a'i effeithiau drwy hyfforddiant, cyfarfodydd Cangen a sesiynau goruchwylio un-i-un.

Rwyf wedi cysylltu â Llywodraeth y DU eisoes ynghylch materion a gadwyd yn ôl. Mae'n nodi bod pob un o erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru a Lloegr wedi cwblhau'r rhaglen hyfforddi orfodol ar drais domestig eisoes. Hyfforddwyd pob erlynydd, erlynydd cyswllt a gweithiwr achos rhwng 2005 a 2008. Diwygiwyd y rhaglen hyfforddi ym mis Rhagfyr 2008 ac mae ar gael ar yr Infonet. Bydd ar gael erbyn mis Ebrill 2009 mewn fersiwn electronig ryngweithiol ar y Coleg Erlyn. Defnyddir y deunyddiau hyfforddi diwygiedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i erlynwyr, erlynwyr cyswllt a gweithwyr achos Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru a Lloegr. Bydd staff newydd yn defnyddio'r deunyddiau hyn fel rhan o'u cyrsiau sefydlu, ynghyd â rhaglen hyfforddi undydd sy'n seiliedig ar hyfforddiant ymwybyddiaeth ac astudiaethau achos ar lefel Grŵp.

Ar hyn o bryd mae'r bwrdd Astudiaethau Barnwrol yn diweddaru ac yn diwygio'r pecyn hyfforddi ar gyfer ynadon, “Domestic Violence: An Ordinary Crime?” Mae deunyddiau cymorth cyfreithiol pellach ar fechnïaeth, rheoli achosion a dedfrydu mewn achosion o drais domestig yn cael eu paratoi hefyd. Caiff y deunyddiau diwygiedig hyn eu treialu ar ddechrau 2009 a byddant ar gael mewn fformat electronig o fis Ebrill 2009. Cynlluniwyd y deunyddiau i fod yn addas i'w defnyddio fel rhaglen unigol neu i'w hintegreiddio i raglenni hyfforddiant eraill.

Mae gan bob maes gwasanaeth prawf fynediad i becyn hyfforddi sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rhaglenni troseddwyr cam-drin domestig achrededig. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys 1.5 diwrnod o hyfforddiant ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ar gyfer staff y rheng flaen ac asiantaethau partner; a hyfforddiant sy'n benodol i'r rôl ar gyfer rheolwyr troseddwyr, gweithwyr diogelwch menywod a hwyluswyr o ran yr elfen gwaith grŵp o'r rhaglen. Hyfforddir pob aelod perthnasol o staff i ddefnyddio'r adnodd asesu risg SARA hefyd. Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Carchardai EM yn datblygu cymhwyster hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr troseddwyr a fydd yn cynnwys modiwl ar gam-drin domestig.

Mae'n gyfrifoldeb ar bob heddlu i sicrhau y caiff swyddogion a staff eu hyfforddi'n effeithiol mewn cam-drin domestig. Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) wedi cyhoeddi canllawiau ar ymchwilio i achosion o gam-drin domestig ac mae swyddog arweiniol ACPO ar gyfer cam-drin domestig wedi bod mewn cysylltiad â'r Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol (NPIA) ynghylch ailwampio

hyfforddiant modwlar presennol. Cynhaliodd NPIA gyfnod o ymgynghori, a gaiff ei ymestyn i gwmpasu'r sector gwirfoddol, ond y meysydd allweddol ar gyfer eu hailwampio fydd Trais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd, Canlyn ac Aflonyddu, Nodi, asesu a rheoli risg a Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (peidio ag ymyrryd a'r rhyngwyneb rhwng y gyfraith sifil a'r gyfraith droseddol). Mae hyfforddiant yn cael ei gynnal o hyd o fewn Heddluoedd unigol mewn perthynas â'r system fodwlar bresennol.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r argymhelliad hwn. Mewn perthynas â materion datganoledig, os nodir bylchau mewn darpariaeth, yna bydd angen ystyried y goblygiadau ariannu.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Ar hyn o bryd rydym yn treialu ac yn gwerthuso rhaglen troseddwyr cymunedol a gyflwynir gan NSPCC. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau yn 2010. Golyga hyn na chaiff yr amserlen o fis Mai 2009 a awgrymwyd gan y Pwyllgor ei chyflawni. Yn ehangach, mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2006, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2008, yn galluogi Llysoedd i gyfarwyddo neu orchymyn rhieni i fynd i weithgareddau i'w helpu i wella neu gadw mewn cysylltiad â'u plentyn neu blant. Un o'r gweithgareddau sydd ar gael i'r Llysoedd yw presenoldeb mewn rhaglenni troseddwyr trais domestig sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad treisgar yr unigolion hynny a gall cwblhau rhaglen o'r fath yn llwyddiannus, gall gynorthwyo'r llys wrth ystyried cysylltiad rhwng plentyn a throseddwr yn y dyfodol. Mae fy swyddogion yn rhan o grŵp bach, a sefydlwyd gan swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, sy'n datblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer y rhaglenni newydd hyn. Un o orchwylion y grŵp hwn fydd edrych ar achredu'r rhaglenni hyn yn unol â'r safonau sy'n cael eu datblygu o dan fy ymateb i argymhelliad 6 ac yn benodol CAADA.

**Goblygiadau Ariannol - Oes**

Daw'r arian ar gyfer rhaglen beilot yr NSPCC a'i gwerthusiad o gyllidebau presennol yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Diwellir goblygiadau ariannol sy'n deillio o ofynion newydd Deddf Mabwysiadu a Phlant 2006 o gyllidebau presennol CAFCASS CYMRU.

**Ymateb: Gwrthod**

Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig o'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Adran Dai. Nid wyf wedi fy narbwyllo y bydd adolygiad, ar hyn o bryd, yn rhoi llawer o wybodaeth newydd am effeithiolrwydd yr arian. Beth bynnag, mae'r amserlen ar gyfer adolygiad o'r fath yn afrealistig ar gyfer darn o waith mor bwysig.

Cymeradwywyd cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009/10 ym mis Rhagfyr 2008. Rydym eisoes wedi hysbysu darparwyr gwasanaeth, a ariennir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cam-drin Domestig, o'u dyraniadau cyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn unol â'n Cynllun Sector Gwirfoddol ac mae'n galluogi darparwyr gwasanaeth i ymdrin â materion recriwtio a chadw gyda llawer iawn o sicrwydd.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

| |
|---|
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Derbyniaf fod yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i flaenoriaethu cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Mae fy ymateb i argymhelliad 9 yn nodi'r cymorth parhaus sylweddol rydym yn ei ddarparu i'r holl wasanaethau y sonnir amdanynt yn yr argymhelliad hwn. Mae'r holl gymorth a nodais yn fy ymateb i argymhelliad 9 yn bwysig iawn, ond hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor yn arbennig at y mesur Plant a Theuluoedd sydd i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn fuan. Bydd hyn yn rhoi Cymorth Teulu Integredig i rieni lle y gallai cam-drin domestig roi'r plentyn mewn angen neu berygl. Mae hwn yn ddatblygiad sylweddol o ran ein nod o gefnogi plant a phobl ifanc mewn teuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Estynnir yr amserlen ar gyfer cynnal y gwaith pwysig hwn a'i werthuso'n effeithiol y tu hwnt i'r amserlen a nodir yn argymhelliad y Pwyllgor.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim**<br><br>Fel y nodir yn fy ymateb i argymhelliad 9. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Gwnaed cynnydd da. diweddariad llawn ar weithredu'r holl argymhellion sy'n deillio o Ymchwiliad y Pwyllgor i gyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y sector gwirfoddol yn ystod y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gynllun y Sector Gwirfoddol, ar 24 Chwefror 2009.<br><br>Mae CGGC a phartneriaid Trydydd Sector eraill yn cynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu'r argymhellion.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim** |

| |
|---|
| Telir am y gwaith o weithredu'r argymhellion o fewn adnoddau presennol. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Mae'r rhain yn faterion a gadwyd yn ôl yn bennaf, felly byddaf yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU.<br><br>Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau yr eir i'r afael â'r mater o gyllid cynaliadwy ar gyfer Llysoedd Arbenigol Cam-drin Domestig a Chynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol yng Nghymru a Lloegr drwy'r Grŵp Llywio SDVC Cenedlaethol. Mae Uned Rhithwir Trais Domestig y llywodraeth wedi cytuno i godi'r mater drwy'r Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Drais Domestig a Thrais Rhywiol yng ngwanwyn 2009.<br><br>Mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi'r gwaith o sefydlu a datblygu'r rhwydwaith SARC ers 2003-04 a bydd £1.6m ar gael yn 2009/10. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU o'r farn y dylid ariannu SARCau yn bennaf ar lefel leol er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy oherwydd bod cyllidebau iechyd a phlismona wedi'u datganoli i ardaloedd lleol. Mae ffynonellau cyllid ar gyfer SARCau yn cynnwys heddluoedd a BILlau, Awdurdodau'r Heddlu, ysbytai, awdurdodau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol, Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a rhoddion gan fusnesau a chymwynaswyr preifat. Yn Lloegr, cynhyrchwyd Canllawiau Gwasanaeth Cenedlaethol ar ddatblygu SARCau ar y cyd â'r Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd, sy'n annog y rhai sy'n comisiynu gwasanaethau iechyd a phlismona yn gryf i fuddsoddi mewn SARCau yn unol ag asesiadau lleol o anghenion. At hynny, bydd tîm arbenigol newydd y Swyddfa Gartref yn cynorthwyo yn y gwaith o sicrhau bod partneriaid lleol yn ymgysylltu â meysydd nad oes ganddynt gynlluniau ar gyfer SARC.<br><br>Yng Nghymru mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi sefydlu Grŵp Swyddogion Traws Adrannol ar SARCau Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Bydd y Grŵp hwn yn cynghori'r Gweinidog, maes o law, ar: |

- Unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu strwythurol sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r sylfeini ar gyfer partneriaeth gyhoeddus lawn i gefnogi SARCau yng Nghymru;
- Y camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r bwlch a nodwyd mewn polisi iechyd a gofal cymdeithasol i hwyluso mewnbwn iechyd a gofal cymdeithasol i SARCau;
- Y materion polisi a chomisiynu cysylltiedig sy'n deillio o wasanaethau ar gyfer archwilio plant a allai fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol;

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

Mae'r goblygiadau ariannol ar faterion sydd a gadwyd yn ôl yn fater i Lywodraeth y DU.

**Ymateb: Derbyn**

Ychwanegir y gofyniad gwerthuso hwn at gynllun gwaith ymchwil 2009/10 yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Bydd yn canolbwyntio ar rôl y cydgysylltydd cam-drin domestig a sut y mae ei waith yn cynorthwyo Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i weithredu ein strategaeth cam-drin domestig.

**Goblygiadau Ariannol - Oes**

Telir y gost o gyllidebau presennol.

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eisoes yn rhoi adroddiadau chwarterol a blynyddol am eu gweithgareddau i fynd i'r afael â cham-drin domestig fel amod o'u grantiau, drwy'r cydgysylltwyr cam-drin domestig. Fel rhan o'n gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu strategol newydd, rydym yn gweithio gyda

Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol newydd ar gyfer cydgysylltwyr cam-drin domestig. Byddwn yn trafod a yw'n bosibl i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a awgrymir gan y Pwyllgor gyda'r Partneriaethau hynny mewn digwyddiad ym mis Chwefror 2009.

Diddymwyd y gofynion ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i gynhyrchu archwiliadau a strategaethau bob tair blynedd ac i gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ar waith a chynnydd y bartneriaeth yn 2007. Yn eu lle, cyflwynodd Llywodraeth y DU safonau cenedlaethol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a oedd yn gosod ystod o rwymedigaethau statudol ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gan gynnwys safonau gofynnol ar ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned, dyletswydd i baratoi asesiad strategol blynyddol (dogfen sy'n nodi blaenoriaethau troseddau a diogelwch cymunedol lleol) a chynllun partneriaeth sy'n nodi'r dull o fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hynny. Mae gan bartneriaethau'r hyblygrwydd i'w cyflwyno yn eu ffordd eu hunain y tu hwnt i'r gofynion statudol. Wrth baratoi asesiad strategol, mae gan bartneriaethau ddyletswydd i geisio barn y cyhoedd a phobl sy'n cynrychioli buddiannau llawer o grwpiau gwahanol a allai gynnwys darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig. Penderfyniad Partneriaethau Diogelwch Cymunedol unigol yw p'un a yw cam-drin domestig yn flaenoriaeth leol.

Deallaf nad yw Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cyfundrefn cydymffurfiaeth i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r safonau gofynnol. Yn hytrach na mandadau cenedlaethol gan y Llywodraeth, bu pwyslais cynyddol ar bartneriaethau i ddeall ystod lawn y materion yn ymwneud â materion throseddau a diogelwch cymunedol yn eu hardaloedd a gallu dangos camau gweithredu effeithiol i fynd i'r afael â hwy. Mae gan bartneriaethau'r hyblygrwydd i'w cyflwyno yn eu ffordd eu hunain y tu hwnt i'r gofynion statudol. Ers cyflwyno'r safonau gofynnol mae Llywodraeth y DU wedi bod yn canolbwyntio ar gefnogi partneriaethau i'w gweithredu mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ymarfer effeithiol a phecyn cymorth asesiad strategol fel y gall partneriaethau nodi eu meysydd gwella eu hunain. Mae’r dogfennau hyn wedi cael eu cyhoeddi, ac maent ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref (http://crimereduction.homeoffice.gov.uk)

| |
|---|
| **Goblygiadau Ariannol - Dim** |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (fel y'i diwygiwyd ar ôl hynny) yn gosod dyletswydd statudol ar Fyrddau Iechyd Lleol i gydweithio â phartneriaid eraill i lunio a gweithredu strategaeth trosedd ac anhrefn. Cytunaf y byddai canllawiau newydd yn atgoffa uwch gynrychiolwyr y gwasanaeth iechyd o'r gofyniad hwn.<br><br>Cyfrifoldeb Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth AIGC yw datblygu'r canllawiau hyn, ar ddiogelu data/gwybodaeth sensitif. Gwneir rhywfaint o waith yn barod gan 'Brosiect Hysbysu Gofal Iechyd'. Mae'n annhebygol y bydd y canllawiau newydd ar gael erbyn mis Mai 2009, ond byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Oes**<br><br>Bydd cyllidebau presennol AIGC yn talu amdanynt. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Rydym eisoes wedi cychwyn trafodaeth ar y materion hyn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rhoddodd Kate Bennett, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |

| |
|---|
| Cymru, gyngor ar y materion hyn i'r Gweithgor ar Gam-drin Domestig ar 12 Mawrth 2008. Byddaf yn sicrhau bod y cydweithrediad hwn yn parhau.<br><br>Mae'r Mesur Cydraddoldeb yn ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth i sicrhau y cynrychiolir buddiannau Cymru yn y Mesur. Bydd Cymru yn ymgynghori ar ei dyletswyddau penodol ei hun ar gyfer cydraddoldeb maes o law.<br>Fel rhan o'r gwaith hwnnw, byddwn yn trafod y mater hwn gyda'r Comisiwn.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Dim** |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Yng Nghymru nid pob Ymddiriedolaeth sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Cynghori ar Lwybrau Cenedlaethol. Yng ngoleuni hyn, ni fydd yn bosibl cyflawni'r gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Fodd bynnag, fel cam cyntaf, byddwn yn anelu at gwblhau asesiad effaith a nodi costau erbyn hynny.<br><br>**Goblygiadau Ariannol - Oes**<br><br>Bydd costau, yn arbennig ar gyfer staff y rheng flaen, yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn. Cânt eu hystyried gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol unwaith y bydd yr asesiad effaith wedi'i gwblhau. |
| **Ymateb: Derbyn yn rhannol**<br><br>Mae'r argymhelliad hwn yn effeithio ar faterion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl.<br><br>Mewn perthynas â materion datganoledig, mae gennym gynllun ymchwil a gwerthuso ar gyfer yr agenda |

hon eisoes. Mae gwerthusiadau diweddar yn cynnwys adolygiad o'r Llinell Gymorth 24 awr a gwerthusiad o Gymorth i Fenywod yng Nghymru. Ar hyn o bryd rydym yn gwerthuso rhaglen troseddwyr beilot yr NSPCC a nododd fy ymateb i argymhellion 14 a 23 yr ychwanegir rhagor o werthusiadau at y cynllun ymchwil. Pan lunnir cynlluniau ymchwil ar gyfer y blynyddoedd i ddod, byddaf yn sicrhau y caiff canfyddiadau'r Pwyllgor eu hystyried mewn cynlluniau ymchwil yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau nad oes cynlluniau i gomisiynu gwerthusiad annibynnol o MARACau ar hyn o bryd. Gwnaeth Llywodraeth y DU ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu 'Tackling Violence' 2008-2011 i gyflwyno MARACau yn genedlaethol erbyn 2011. Mae'n casglu data yng Nghymru a Lloegr drwy'r elusen CAADA (Coordinated Action Against Domestic Abuse). Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i adolygu'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod MARACau yn gweithredu'n effeithiol.

O ran lefelau cyhuddo mewn achosion o gam-drin domestig, gwneir y gwaith hwn eisoes bob blwyddyn. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Trais yn erbyn Menywod cyntaf ym mis Rhagfyr 2008, gan gynnwys manylion cyhuddiadau mewn perthynas â throseddau trais domestig, trais rhywiol a throseddau rhywiol. Y bwriad yw bod adroddiad blynyddol yn cwmpasu cyhuddiadau, erlyniadau ac euogfarnau yn cael ei gyhoeddi bob mis Rhagfyr. Mae'r adroddiad yn cyhoeddi data ar lefel genedlaethol gyda data erlyn ac euogfarnu yn ôl Ardal. Mae data cyhuddo yn ôl Ardal ar gael ar gais. Gellir cyfuno data ar gyfer Cymru gyfan os oes angen.

**Goblygiadau Ariannol - Dim**

Ariennir cynllun ymchwil yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol o adnoddau cyfredol.